**Cofnodion Wedi i Cadarnhau Iechyd Cyhoeddus Cymru**
**Cyfarfod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella**
**16 Medi 2024, 13:00 – 15:42**
**yn Capital Quarter 2 a thrwy Microsoft Teams**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | | |
| Diane Crone | (DC) | Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Kate Young | (KY) | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| **Yn Bresennol:** | | |
| Anne Beegan | (AB) | Archwilio Cymru |
| Claire Birchall | (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (Dros Dro) |
| Julie Bishop | (JB) | Cyfarwyddwr Gwella Iechyd (ar gyfer eitem x) |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Paul Brocklehurst | (PB) | Ymgynghorydd Iechyd Deintyddol |
| Amy Burgess | (ABu) | Rheolwr Ymgysylltu a Chydweithio |
| Tom Fowler | (TF) | Dirprwy Gyfarwyddwr Cenedlaethol Sgrinio a Diogelu Iechyd |
| Junaid Iqbal | (JI) | Arweinydd ar gyfer Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau |
| Clare Jenkins | (CJ) | Is-gadeirydd y Bwrdd a Chyfarwyddwr Anweithredol |
| Anup Karki | (AK) | Arweinydd Tîm ac Ymgynghorydd Iechyd Deintyddol y Cyhoedd |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol. |
| Hannah Lindsay | (HL) | Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Strategol a Pherfformiad (Sylwedydd) |
| Jim McManus | (JM) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant |
| Tamsin Ramasut | (TR) | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Stuart Silcox | (SS) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig |
| Sikha da Souza | (SdS) | Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd - Sgrinio |
| Mary Wilson | (MW) | Ymgynghorydd mewn Iechyd Deintyddol y Cyhoedd |
| Josie Yuen | (JY) | Arweinydd Tystiolaeth ac Ymgysylltu (Sylwedydd) |
| **Ymddiheuriadau** | | |
| Angela Cook | (AC) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |

Cadarnhaodd

| | | |
|---|---|---|
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| *Dechreuodd y cyfarfod am 13:00* | | |
| **Rhan A** | | |
| **QSIC 2024.09.16/1** | **Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau** | |

Croesawodd y Cadeirydd bawb i sesiwn gyhoeddus cyfarfod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella.

Nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb.

| | |
|---|---|
| **QSIC 2024. 09.16/2** | **Datganiad o Fuddiant** |

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn ychwanegol i'r rhai a ddatgelwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.

| | |
|---|---|
| **QSIC 2024.09.16/3** | **Eitemau i'w Cymeradwyo** |
| **QSIC 2024.09.16/3.1** | **Cofnodion, Cofnodion Gweithredu a Materion yn Codi o'r cyfarfod – Gorffennaf 2024** |

Ystyriodd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf 2024 a'u **cymeradwyo** fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

Ystyriodd y Pwyllgor y diweddariadau i'r cofnod gweithredu a **chymeradwyodd** cau un cam gweithredu a **nododd** yr wybodaeth ddiweddaraf am y ddwy eitem arall.

| | |
|---|---|
| **QSIC 2024.09.16/4** | **Eitemau ar gyfer Sicrwydd** |
| **QSIC 2024.09.16/4.1** | **Adroddiad Blynyddol Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru** |

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Diogelu GIG Cymru a oedd yn rhoi sicrwydd ynghylch rhaglen waith y Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol yn gweithio gyda phartneriaid amlasiantaethol.

Cyflwynodd CB LM, Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol i'r Pwyllgor. Roedd y Rhwydwaith, dros 10 mlynedd, wedi datblygu strategaethau a dysgu i wella arferion a chanlyniadau i bobl agored i niwed. Roedd y Rhwydwaith yn cynnwys Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau, y Comisiynwyr Pobl Hŷn a Phlant, Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol.

Cyflwynodd LM yr adroddiad, a oedd yn crynhoi'r gwaith a gweledigaeth y Rhwydwaith o ran ymdrin â materion sensitif. Rhannodd LM prif bwyntiau dethol gyda'r Pwyllgor:

- Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl Mewn Plentyndod (PRUDiC), y Gwasanaeth a gyflawnodd ac a archwiliodd y weithdrefn.
- Datblygwyd taflenni gwybodaeth i rieni a gweithwyr proffesiynol eraill yr effeithiwyd arnynt gan y marwolaethau sydyn.
- Dechreuwyd casglu adborth gan blant mewn gofal.

Roedd y Tîm yn awyddus i ddatblygu adborth gan ei holl ddefnyddwyr gwasanaeth a byddai'n parhau â'r gwaith hwn yn y flwyddyn i ddod.

Cadarnhaod

Diolchodd y Pwyllgor i LM am y cyflwyniad meddylgar, gan nodi bod yr adroddiad yn arddangos ehangder y gwaith a wnaed, ac yn manylu ar y cymorth a roddwyd i'r rhai yr effeithiwyd arnynt ac i'r darparwyr gwasanaeth a'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymdrin â materion diogelu cymhleth yng Nghymru.

Trafododd y Pwyllgor sut roedd y gwaith diogelu y manylwyd arno yn yr Adroddiad hwn yn cymharu â'r gwaith o fewn sefydliadau eraill a oedd yn rhan o'r Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol. Rhoddwyd sicrwydd iddynt fod gan y Rhwydwaith gynrychiolaeth o bob sector perthnasol.

Sylwodd y Pwyllgor nad oedd yr Adroddiad wedi diffinio'r term gofalwr. Diffiniodd Llywodraeth Cymru ofalwr yn benodol fel un sy'n ddi-dâl yn eu deddfwriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a gofynnodd i'r hepgoriad hwn gael ei gywiro mewn Adroddiadau yn y dyfodol. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd a fyddai modd ystyried sicrhau bod pecynnau cymorth yn gwbl hygyrch i bawb pan gânt eu datblygu a'u profi cyn eu cyhoeddi.

Diolchodd LM i'r Pwyllgor am eu sylwadau a chadarnhaodd ei bod wedi eu nodi.

Diolchodd CB i LM am y cyflwyniad ac am arwain y tîm trwy gyfnod o newid. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod disgwyl newid pellach yn dilyn adolygiad cenedlaethol o Ddiogelu ym maes iechyd a fyddai'n amlygu argymhellion newydd.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** fod arweinyddiaeth system y Gwasanaethau Diogelu Cenedlaethol yn gweithio ar draws y Sefydliad.

| **QSIC 2024.09.16/4.2** | **Cynllun Gweithredu Twbercwlosis (TB) - Y Diweddaraf am Weithredu** |
|---|---|

Ystyriodd y Pwyllgor y Cynllun Gweithredu TB – Adroddiad ar y Diweddaraf am Weithredu

Darparodd MK gefndir y Cynllun Gweithredu TB i'r Pwyllgor yn dilyn yr argymhellion i'r adolygiad allanol o reolaeth yr achosion yn Llwynhendy, Sir Gaerfyrddin.

Dywedodd MK fod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gweithio'n strategol gyda Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad, a nododd y camau gweithredu sydd heb eu cymryd. Nododd MK yr oedi cyn cyhoeddi Cylchlythyr Iechyd Cymru oherwydd goblygiadau strategol a gweithredol angenrheidiol. Byddai'r rhain yn gofyn am ystyriaethau sylweddol gan bob parti. Parhaodd Iechyd Cyhoeddus Cymru i eiriol dros gwblhau'r holl gamau gweithredu o'r Adroddiad, er bod gan Gymru'r nifer lleiaf o achosion ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig.

Cydnabuwyd y gallai unrhyw achos o TB ddod yn frigiad o achosion fel y gwelwyd yn Llwynhendy lle nodwyd 31 o achosion dros 11 mlynedd. Byddai'r Tîm Rheoli Achosion yn cau'r achosion cyn gynted ag y bydd wedi nodi'r holl gysylltiadau agos a nodwyd o'r ffynhonnell gychwynnol.

Cadarnhaodd

Wrth gyflwyno'r papur i'r Pwyllgor, gofynnodd MK am gytundeb i ddychwelyd i ddull busnes fel arfer. Cytunodd y Pwyllgor â'r dull gweithredu arfaethedig ond awgrymodd fod angen sgrinio parhaus ar gyfer newydd-ddyfodiaid a bod cyhoeddi Cylchlythyr Iechyd Cymru yn bwysig. Awgrymwyd y dylid ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Gyfadran.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** o'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y camau gweithredu yn dilyn datblygu'r cynllun gweithredu TB yn dilyn yr adolygiad allanol o reolaeth y brigiad o achosion yn Llwynhendy, Sir Gaerfyrddin.

| **QSIC 2024.09.16/4.3** | **Cynllunio ar gyfer y Gaeaf** |
|---|---|

Cyflwynodd MK y diweddariad blynyddol a oedd yn manylu ar gynlluniau Parodrwydd Gaeaf y Sefydliad.

Cyflwynodd TF y papur a thynnodd sylw at y canlynol:

- Gwyliadwriaeth o fygythiadau iechyd y cyhoedd, hyrwyddo brechiadau ffliw a brechiadau eraill, paratoi cyfathrebiadau, datblygu gwyliadwriaeth a monitro a chynlluniau parhad busnes.
- Darpariaeth arweinyddiaeth system y Gyfarwyddiaeth i feysydd eraill o fewn y Sefydliad a'r cyngor a ddarperir i Lywodraeth Cymru.
- Hyrwyddo brechu o fewn y Sefydliad, a chadarnhad gan arweinwyr parodrwydd bod cynlluniau ar waith i gefnogi argyfyngau posibl.

Diolchodd y Pwyllgor i TF ac roedd yn cydnabod y gwaith Traws Sefydliadol helaeth a fu'n gysylltiedig â Chynllunio dros y Gaeaf.

Gofynnodd y Pwyllgor sut y byddai dod â'r Lwfans Tanwydd Gaeaf Llywodraeth y DU i ben yn effeithio ar wasanaethau'r Sefydliad. Byddai TF yn adolygu'r Cynlluniau Gaeaf yn dilyn y cyhoeddiad diweddar hwn gan Lywodraeth y DU.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** o'r diweddariad ar gynllunio, paratoi a chynnydd Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer Gaeaf 2024/25 a chafodd **sicrwydd** o'r diweddariad ar arweinyddiaeth system a chynllunio parhad busnes Gaeaf 2024/25.

| **QSIC 2024.09.16/4.4** | **Rheoli Meddyginiaethau** |
|---|---|

Cyflwynodd MK yr Adroddiad Rheoli Meddyginiaethau, gan nodi bod cwmpas y gwaith hwn wedi'i ystyried yn flaenorol gan y Pwyllgor.

Aeth SdS ymlaen i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y gwaith sydd ar y gweill, gan nodi bod Polisi Rheoli Meddyginiaethau'r Sefydliad wedi helpu i sicrhau bod y Sefydliad yn trin, storio a rhoi meddyginiaethau mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.

Cydnabuwyd bod gan y Sefydliad stociau o feddyginiaethau cyfyngedig a oedd yn cael eu defnyddio yn y Gwasanaethau Sgrinio yn unig. Roedd yr holl feddyginiaethau eraill a ddefnyddiwyd yn cael eu presgripsiynu gan weithwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru a bresgripsiynwyd yn uniongyrchol o dan rolau Rheoli Byrddau Iechyd gan ddefnyddio eu contractau anrhydeddus gyda'r Byrddau Iechyd perthnasol.

Cadarnhaodd

Nodwyd diffyg mewnbwn fferylliaeth arbenigol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ac roedd AC yn gweithio i ddiweddaru'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth presennol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn y maes hwn.

Roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd ar gyfer yr adolygiad wedi nodi'r angen am Swyddog Diogelwch Meddyginiaeth ac awgrymodd y dylid penodi Rheolwr Llywodraethu Clinigol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio i'r swydd. Byddai angen diweddaru'r Polisi petai'r rôl hon yn cael ei sefydlu. Nid oedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi penderfynu eto a oedd angen Grŵp Rheoli Meddyginiaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru ac roedd trafodaethau'n parhau. Nododd CB ei bod yn bwysig mai clinigydd oedd y Swyddog Diogelwch Meddyginiaethau.

Gofynnodd SdS i'r Pwyllgor roi sylwadau ar y gofyniad i ffurfio Grŵp Rheoli Meddyginiaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru. Awgrymodd y Pwyllgor fod angen Grŵp o'r fath, dan arweiniad y Swyddog Diogelwch Meddyginiaethau gan fod rôl i ddarparu arweinyddiaeth, rheolaeth a rheoli risg. Byddai'r Grŵp a ffurfir yn rhoi'r sicrwydd gofynnol ac yn gweithredu yn ôl yr angen. Byddai'n dilyn rôl a gyflawnir gan Grwpiau tebyg mewn Ymddiriedolaethau eraill.

Gofynnodd y Pwyllgor am gael gwybod am unrhyw ddiweddariadau i Gylch Gorchwyl y Grŵp a phenderfyniadau ynghylch ffurfio'r Grŵp yn ôl yr angen.
**Cam Gweithredu: SdS**

**Sicrhaodd** y Pwyllgor y camau a gymerwyd i gryfhau llywodraethu ynghylch Rheoli Meddyginiaethau yn y sefydliad.

| QSIC 2024.09.16/4.5 | Rhaglenni Iechyd y Boblogaeth |
|---|---|

Ystyriodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am Raglenni Iechyd y Boblogaeth.

Wrth gyflwyno'r diweddariad, atgoffodd JM y Pwyllgor eu bod wedi gofyn am adolygiad cyffredinol lefel uchel o'r rhaglenni a gynhaliwyd yn y Gyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant. Roedd y diweddariad yn dangos lefel y gwaith a wnaed a hefyd yn amlygu unrhyw risgiau lefel uchel posibl i'r Sefydliad. Roedd yr adroddiad eglurhaol yn manylu ar y 19 o Raglenni Iechyd y Cyhoedd Strategol ac roedd yr Atodiad yn cynnwys manylion llawn yr holl Raglenni.

Hysbysodd JM y Pwyllgor am raglen ychwanegol, Mynd i'r Afael â Diabetes Gyda'n Gilydd, gan fod hon yn rhaglen Cymru gyfan a oedd yn cael ei chynnal gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Roedd y Gyfarwyddiaeth yn cynnwys dwy Is-adran, Gwella Iechyd dan arweiniad JB a Gofal Sylfaenol dan arweiniad ZW ac Uned Penderfynyddion Ehangach a reolir gan yr Is-adran Gofal Sylfaenol. Roedd pob Rhaglen yn cael ei harwain gan Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd neu Ymgynghorydd Iechyd Deintyddol y Cyhoedd ac roedd pob Rhaglen wedi gosod amcanion a chynllun o 3 i 5 mlynedd.

Cadarnhaodd

Cadarnhaodd

| | |
|---|---|
| Esboniodd ZW fod y rhan fwyaf o'r Rhaglenni'n cael eu darparu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allanol, a oedd o dan reolaeth trefniadau llywodraethu ffurfiol gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru.<br><br>Gofynnodd y Pwyllgor a ellid cynnwys arwydd o gynnydd ar bob Rhaglen yn yr Atodiad, ac arwydd o ba mor llwyddiannus y bu'r Rhaglenni ar ôl eu cwblhau. Awgrymodd y Pwyllgor y byddai hon yn wybodaeth bwysig i'w defnyddio yn ystod cyfarfodydd gwaith Traws-Bwyllgor. Cytunodd JB a ZW i gynnwys yr wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani mewn fersiynau o'r Atodiad yn y dyfodol.<br><br>Nododd y Pwyllgor fod y cyllid wedi'i nodi fel risg sy'n digwydd yn rheolaidd ar draws y rhaglenni ac awgrymodd y dylid ystyried y rhaglenni blaenoriaeth a allai fod mewn perygl.<br><br>Awgrymodd y Pwyllgor y dylid ystyried grwpiau poblogaeth penodol, er enghraifft, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Hŷn. Dywedodd JB, er bod y data hynny'n cael eu casglu, nad oeddent bob amser yn cael eu cyflwyno mewn fformat sy'n gysylltiedig ag oedran.<br><br>Diolchodd JM i'r Pwyllgor am y sylwadau a'r cwestiynau a chytunodd i ail-fformatio'r Atodiad i gynnwys gwybodaeth ddefnyddiol ychwanegol a'i gyflwyno i'r Pwyllgor.<br>**Cam Gweithredu: JM**<br><br>Awgrymodd y Pwyllgor y dylai'r rhyng-gysylltedd data rhwng rhaglenni unigol a'r cynllun tymor canolig integredig gael ei ystyried gan y Bwrdd mewn Sesiwn Datblygu Bwrdd.<br>**Cam Gweithredu: LB**<br><br>**Ystyriodd** y Pwyllgor yr amrywiaeth o raglenni sy'n cael eu darparu gan y Gyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant a'u trefniadau llywodraethu cysylltiedig er mwyn llywio rhaglen waith y Pwyllgor yn y dyfodol. | |
| **Egwyl** | |
| **QSIC 2024.09.16/4.6** | **Ymgysylltu: Ymwneud â'n Gwasanaethau** |
| Ystyriodd y Pwyllgor y Diweddariad ar Ymgysylltu â'n Gwasanaethau, a oedd yn cynnwys tair eitem ryng-gysylltiedig, Adolygiad o Ymgysylltiad, y defnydd o lwyfan CIVICA a'r Rhaglen Llysgenhadon Ifanc.<br><br><u>Cynllun Ymgysylltu:</u><br><br>Rhoddodd AB hanes cryno i'r Pwyllgor o'r Cynllun Ymgysylltu a oedd â'r nod o ddwyn ynghyd yr holl ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru. Adolygwyd y cynllun rhwng Mai a Gorffennaf 2024 ac roedd y Gofrestr Risg wedi'i diweddaru i gydnabod nad oedd y dull presennol yn briodol.<br><br>Cytunodd y Sefydliad i ddiffinio ymgysylltu, gwerthuso gweithgarwch ymgysylltu, asesu'r seilwaith sydd ei angen arno, osgoi dyblygu adnoddau a mynd i'r afael â goblygiadau ariannol ac enw da ymgysylltiad gwael. Roedd y Sefydliad hefyd yn cydnabod yr angen i wella Gwasanaethau Ymgysylltu ar draws y Sefydliad. | |

Awgrymodd y Pwyllgor y byddai angen i'r Sefydliad estyn allan at randdeiliaid allanol i ymgysylltu â grwpiau a chymunedau pwysig. Awgrymwyd mai proses ystwyth oedd y dull gorau i'w fabwysiadu. Teimlwyd hefyd y dylai'r Sefydliad, wrth addasu rhaglenni, ymgynghori â defnyddwyr ar yr hyn a fyddai'n gweithio orau iddynt a lle teimlai'r defnyddwyr y gellid gwella'r gwasanaethau a ddarperir gan y Sefydliad.

Atgoffwyd y Pwyllgor fod gofynion y Ddyletswydd Ansawdd wedi newid ffocws y Sefydliad ac y byddai'r Cynllun Ymgysylltu newydd yn cael ei gyflawni, er gwaethaf y ffaith bod amserlenni heriol. Cydnabu CB y profiad a'r cymorth yr oedd cydweithwyr Anweithredol wedi'u rhoi.

Trafododd y Pwyllgor yr oedi cyn cyflawni'r gwaith Ymgysylltu a gofynnodd a oedd hyn oherwydd diffyg adnoddau. Nododd y Pwyllgor oedi wrth gwblhau argymhellion Camau Archwilio Mewnol, a oedd, oherwydd y newid ffocws o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth Dyletswydd Ansawdd, bellach yn cael eu hystyried yn ddiangen a chytunodd CB i adolygu'r Camau Archwilio hyn.
**Cam Gweithredu: CB**

Roedd y Pwyllgor yn cefnogi cyfeiriad y daith ar gyfer y gwaith hwn.

<u>Adborth Sefydliadol (CIVICA):</u>

Cyflwynodd JI fideo CIVICA a oedd yn dangos dulliau o gael adborth i'r Sefydliad gan ddefnyddio dull 'ar waith bob amser'.

Roedd system CIVICA yn seiliedig ar ofyniad Prawf Cyfeillion a Theulu GIG Lloegr i gasglu data. Ar hyn o bryd nid oedd gofyniad i gasglu data tebyg gan gleifion o Gymru. Fodd bynnag, byddai Fframwaith Profiad y Bobl yn dechrau casglu data gan ddefnyddio arolwg pum cwestiwn. Byddai dau o'r cwestiynau'n cyfeirio at iaith a chyfathrebu a byddai'r tri chwestiwn sy'n weddill yn debyg i'r cwestiynau sy'n cael eu defnyddio yn Lloegr.

Ar hyn o bryd roedd dau Fwrdd Iechyd yng Nghymru (Hywel Dda a Bae Abertawe) yn defnyddio arolwg FFT i gael adborth gan gleifion, a byddai'r wybodaeth hon yn cael ei chynnwys yn y set Gymreig o gwestiynau pan fyddent ar gael.

Y bwriad oedd darparu data ar draws y Sefydliad gan ddefnyddio'r system a fyddai'n cael ei dorri i lawr i ddangos boddhad gan yr holl Wasanaethau Sgrinio sy'n wynebu'r cyhoedd a hefyd gan wasanaethau eraill gan gynnwys Helpa Fi i Stopio.

Gellid cael adroddiadau ychwanegol o'r system, gan gynnwys Mapiau Gwres Misol a fyddai'n dangos atebion cronnol i gwestiynau dros gyfnod penodol o amser. Byddai mapiau o'r fath yn hwyluso gosod meincnodau. Gellid addasu Adroddiadau Cryno Arolygon i ddangos gwybodaeth benodol sydd ei hangen ar y defnyddiwr terfynol.

Byddai sylwadau a wneir gan y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hadolygu'n llawn gan y staff. Bydd set o eiriau profiad Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu sefydlu y

Cadarnhaodd

byddai’r system yn eu fflagio’n awtomatig i osod larymau/rhybuddion yn y system er mwyn hysbysu aelodau enwebedig o staff ar unwaith.

Byddai system awtomataidd ar gyfer Camau Gweithredu a gynhyrchir o'r tu mewn i'r system yn anfon e-byst, unwaith y bydd cam gweithredu wedi'i neilltuo, yna 5 diwrnod cyn dyddiad cwblhau'r cam gweithredu ac yna'n ddyddiol ar ôl y dyddiad cwblhau hyd nes bod y cam gweithredu wedi'i gwblhau.

Cynigiwyd rhoi cyhoeddusrwydd i bosteri Dywedoch Chi, Gwnaethon Ni a fyddai'n cael eu cynhyrchu'n awtomatig gan y Rheolwr Gweithredu a llenwi'r meysydd posteri i'w harddangos.

Roedd y term Profiad y Bobl yn well na Defnyddiwr Gwasanaeth a chynigiwyd sefydlu Grŵp Profiad y Bobl cyn diwedd mis Hydref i gefnogi gweithrediad y Fframwaith ac i sicrhau cysondeb cwestiynau ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus a ddarperir gan y Sefydliad.

Croesawodd y Pwyllgor y fenter hon ac anogodd y defnydd parhaus o waith traws-sefydliadol a ddangoswyd. Cydnabuwyd bod gwaith traws-sefydliadol yn broses ddwy ffordd. Byddai'r wybodaeth a gasglwyd gan y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei bwydo'n ôl i'r darparwyr gwasanaeth yn barhaus er mwyn sicrhau bod gwelliannau'n cael eu cynllunio a'u cyflawni.

Diolchodd DC i JI am ei gyflwyniad a gofynnodd iddo ddiweddaru'r Pwyllgor yn y misoedd nesaf.

<u>Ymgysylltiad Llysgenhadon Ifanc:</u>

Cyflwynodd JY ddiweddariad ar y Rhaglen Llysgenhadon Ifanc, gan amlygu bod y rhaglen wedi’i sefydlu yn 2019 gyda’r nod o roi cyfle i bobl ifanc ledled Cymru ddatblygu eu sgiliau a’u gwybodaeth i gefnogi a dylanwadu. Roedd plant a phobl ifanc rhwng 11 a 21 oed, a gafodd eu recriwtio gan awdurdodau lleol a gweithwyr ieuenctid wedi bod i 7 diwrnod preswyl, 11 o gyfarfodydd rhithwir ac wedi cymryd rhan yng Nghyfarfodydd Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Er bod gwerth sylweddol i’r rhaglen hyd yma, nid oedd wedi cyflawni ei nod yn llawn, ac roedd angen ei hadnewyddu a’i hailfodelu yn dilyn saib i gynnal adolygiad sylfaenol yn cynnwys adborth gan y Llysgenhadon Ifanc a staff o’r Sefydliad. Dangosodd y canfyddiadau fod ansicrwydd ynghylch nod y Rhaglen, ac nad oedd modd gwerthuso llwyddiant y Rhaglen na'i heffaith yn ffurfiol. Nodwyd hefyd bod y Rhaglen hon yn dyblygu rhaglenni ieuenctid tebyg sy'n cael eu rhedeg yng Nghymru.

Roedd y Sefydliad wedi mynegi pryder bod diffyg cynrychiolaeth yn aml ynghylch nodweddion gwarchodedig a gwasgariad daearyddol ac y byddai'r Sefydliad yn hoffi canolbwyntio'r rhaglen ar fater iechyd penodol wrth edrych tua’r dyfodol, neu wella'r effaith wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Roedd meysydd lle gellid cryfhau diogelu hefyd wedi’u codi o ystyried ystod oedran fawr y cyfranogwyr. Yn ogystal â hyn, roedd diffyg eglurder rhwng awdurdodau lleol, gweithwyr ieuenctid ac

Cadarnhaodd

Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch cyfrifoldebau. Cydnabuwyd y byddai angen ystyried adnoddau ariannol a gweithlu priodol yn ofalus wrth symud ymlaen.

Roedd y camau nesaf wedi'u nodi a'u cytuno. Byddai gweithdy gyda staff yn nodi ac yn cytuno ar faes gofal iechyd i ganolbwyntio arno a byddai ymarfer mapio yn nodi unrhyw weithgareddau cysylltiedig yng Nghymru. Ar ôl cyfarfod â phartneriaid, byddai'r cynnig ar gyfer y Rhaglen Llysgenhadon Ifanc wedi'i hailddiffinio a'i chostio'n llawn yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Gweithredol Busnes ym mis Medi 2025.

Cydnabu'r Pwyllgor y gwaith hyd yma a'r gwaith yr oedd yn dal i fod angen ei wneud i barhau â'r rhan bwysig hon o'r broses ymgysylltu â'r cyhoedd. Pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd ymgysylltu â phobl ifanc a'i bod yn bwysig eu bod yn cael llywio'r rhaglen.

Cydnabuwyd y cyflwyniad ar fepio fel rhan lwyddiannus o raglen y Llysgennad Ifanc hyd yma ac roedd wedi dangos ffordd o gyfathrebu llwyddiannus i'r grŵp oedran.

Gofynnodd y Pwyllgor i CB ddiweddaru'r Pwyllgor yn y cyfarfod ym mis Chwefror. Dywedodd CB wrth y Pwyllgor fod diweddariadau rheolaidd a chylchlythyr yn cael eu hanfon at randdeiliaid a rhai aelodau o'r Pwyllgor. Gwahoddodd DC aelodau'r Pwyllgor a hoffai hefyd dderbyn y cylchlythyr i gysylltu â CB.
**Cam Gweithredu: LB/CB**

**Sicrhaodd** y pwyllgor y cynnydd a'r camau nesaf yn ymwneud â dull y Sefydliad o ymgysylltu â gwasanaethau.

| **QSIC 2024.09.16/5** | **Archwiliadau Dwfn** |
|---|---|
| **QSIC 2024.09.16/5.1** | **Archwiliad Dwfn 1 - Iechyd y Geg** |

Wrth gyflwyno'r archwiliad dwfn ar Iechyd y Geg, nododd JM bwysigrwydd iechyd y geg i boblogaeth Cymru, a bod Cymru wedi cadw ei Thîm Cenedlaethol ar Iechyd Deintyddol y Cyhoedd.

Cyflwynodd ZW y cefndir i Iechyd Deintyddol y Cyhoedd yng Nghymru a nododd feysydd pryder allweddol:

- Gwella iechyd y geg.
- Gofal Iechyd Iechyd y Cyhoedd ym maes Deintyddiaeth.
- Ansawdd a Diogelwch a Diogelwch (gan gynnwys Gwella Ansawdd).
- Gwybodaeth iechyd y geg.
- Cynllunio a Datblygu'r Gweithlu.

Cyfrannodd y Tîm Iechyd Deintyddol y Cyhoedd at dair rhaglen bartneriaeth yng Nghymru:

- Cynllun Gwên (D2S), fel y'i diffinnir yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru (2017) 023, dan arweiniad MW.
- Rhaglen Epidemioleg Ddeintyddol yng Nghymru, fel y'i diffinnir yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru (2021) 032, dan arweiniad PB.
- Rhaglen Diwygio Deintyddol Llywodraeth Cymru, dan arweiniad AK.

Oedwyd y rhaglenni yn ystod pandemig COVID-19 ac roeddent yn adfer.

Cadarnhaodd

Dywedodd ZW wrth y Pwyllgor fod gostyngiad yn y gyllideb yn destun pryder a gofynnodd am gymorth i gynyddu adnoddau i weithredu datrysiadau digidol i'w waith D2S. O ran y Rhaglen Epidemioleg Ddeintyddol, gofynnodd ZW i'r Pwyllgor gefnogi trosglwyddo gwasanaethau deintyddol o Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG i Iechyd Cyhoeddus Cymru fel y rhagwelwyd yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru (WHC) (2012) 032, a gofynnodd i'r Pwyllgor nodi mewnbwn parhaus Iechyd Deintyddol y Cyhoedd i ddiwygio gwasanaethau deintyddol yng Nghymru.

Sylwodd y Pwyllgor mai ceudodau deintyddol oedd y clefyd anhrosglwyddadwy mwyaf cyffredin a oedd â chostau cysylltiedig sylweddol. Teimlai'r Pwyllgor ei bod yn bwysig cefnogi gwaith y Tîm. Awgrymodd y Pwyllgor ei bod yn hollbwysig bod rhaglen y Cynllun Gwên yn cael ei hyrwyddo mor eang â phosibl gan ei bod yn cael ei chydnabod gan Lywodraeth Cymru fel agwedd bwysig ar iechyd plant.

Darparodd MW ffigurau i'r Pwyllgor a oedd yn dangos na fu cynnydd yn y costau a ddarparwyd ar gyfer y Rhaglen ers lansio'r Rhaglen D2S yn 2010 a bod costau staff bellach yn golygu na ellid cyflawni'r Rhaglen yn llawn. Roedd 400 o ysgolion a meithrinfeydd ar restr aros ar hyn o bryd i gychwyn y Rhaglen.

Gofynnodd JM i'r sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor gael eu coladu a'u hadolygu gan Dîm Iechyd Deintyddol y Cyhoedd mewn cydweithrediad ag ef ac aelodau eraill o'r Pwyllgor. Y bwriad yw canolbwyntio ar ffyrdd o godi proffil y rhaglen D2s ymhellach.
**Cam Gweithredu: JM**

Fe wnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Cafodd **sicrwydd** bod mewnbwn Iechyd Deintyddol y Cyhoedd i Raglen Diwygio Deintyddol Llywodraeth Cymru yn ceisio dylanwadu ar natur y contract deintyddol yn ogystal â diwygio systemau deintyddol cyffredinol yng Nghymru.

- **Nodwyd** y risgiau mewn perthynas ag ansicrwydd sy'n gysylltiedig â chontract deintyddol newydd, cynllunio gwasanaethau deintyddol cyffredinol gan gynnwys sut y bydd gwasanaethau deintyddol yn gweithio gyda gwasanaethau sylfaenol a chymunedol ehangach yn y gymdogaeth.

- **Nodwyd** bod rôl Iechyd Deintyddol y Cyhoedd mewn rhaglen gymhleth i ddiwygio gwasanaethau deintyddol yng nghyd-destun rhaglen drawsnewid gofal sylfaenol a chymunedol ehangach yng Nghymru.

Diolchodd y Pwyllgor i JM a'i dîm am y cyflwyniad cynhwysfawr a gofynnodd am ddiweddariadau maes o law.

| **QSIC 2024.09.16/5.2** | **Archwiliad Dwfn 2 - Iechyd a Diogelwch** |
|---|---|
| Gohiriwyd yr eitem hon tan gyfarfod mis Tachwedd. | |

| **QSIC 2024.09.16/6** | **Eitemau i'w Nodi** |
|---|---|
| **QSIC 2024.09.16/6.1** | **Traciwr Camau Gweithredu Archwilio** |

Cadarnhaodd

| | |
|---|---|
| Nododd LB y Traciwr Camau Gweithredu Archwilio a gyflwynwyd i roi trosolwg i'r Pwyllgor ar gamau archwilio perthnasol a materion o fewn eu cylch gorchwyl. Nodwyd mai'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol sydd yn gyfrifol am y gwaith o fonitro gweithrediad y camau gweithredu. Dywedwyd bod yr wybodaeth hon yn cael ei darparu i bob un o'r Pwyllgorau er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o'r camau gweithredu perthnasol o fewn eu cylch gwaith.<br><br>Nododd y Pwyllgor y Traciwr Gweithredu Archwilio, a'r cynnydd o ran camau gweithredu cylch gorchwyl y Pwyllgor. | |
| **QSIC 2024.09.16/6.2** | **Cynllun Gwaith y Pwyllgor** |
| Nododd y Pwyllgor Gynllun Gwaith y Pwyllgor, a'r newidiadau a wnaed ers y cyfarfod blaenorol. | |
| **QSIC 2024.09.16/7** | **Gweinyddiaeth i Gloi** |
| Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw adborth gael ei anfon at LB drwy e-bost, neu drwy ffurflen adborth newydd yr oedd y ddolen ar eich chyfer wedi'i hanfon yng nghyfleuster sgwrs y cyfarfod.<br><br>Dyddiad y cyfarfod nesaf: 25 Tachwedd 2024.<br><br>Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben. | |
| *Daeth y sesiwn agored i ben am 15:42* | |

Cadarnhaodd